# GWYBOD RHAGOR... GWNEUD RHAGOR... DWEUD RHAGOR...

## ...AM UNO'R CENEDLAETHAU MEWN CYMUNEDAU

Mae **Rhaglen Wirfoddoli i Bobl Hŷn a Phobl sydd wedi Ymddeol (RSVP) CSV** yn bartneriaid â'r Ganolfan Ymarfer Rhwng Cenedlaethau (CIP) ac yn cael ei chyllido gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi ymarfer, prosiectau a gwaith rhwng y cenedlaethau yng Nghymru.

## Pwy ydym ni?

Mae gan RSVP dros 20 mlynedd o brofiad o ddatblygu a rheoli prosiectau gyda dull o weithio rhwng cenedlaethau yng Nghymru. Mae gennym nifer o brosiectau gweithgar rhwng cenedlaethau drwy Gymru gyfan, yn ogystal â phrosiectau rhwng cenedlaethau sydd wedi cael eu datblygu i adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol fel ein prosiectau 'Cyfnewid sgiliau' a 'Cymorth i ofalwyr' a gyllidwyd gan y Gronfa Loteri Fawr, ein prosiect 'Dathlu hanes gyda'n gilydd' a gyllidwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, a phrosiect dan arweiniad gwirfoddolwyr, dan y teitl 'Cysylltu'r Cenedlaethau', a gyllidwyd gan Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm. Ein nod yw cyflawni cynaladwyedd gyda'n holl brosiectau, gan ddefnyddio ein model sefydledig 'dan arweiniad a rheolaeth gwirfoddolwyr' - sy'n ein gwneud ni'n arbennig o addas i weithio gyda grwpiau cymunedol.

## Beth allwn ni ei gynnig?

- Cyngor a chefnogaeth dros y ffôn a thrwy e-bost i brosiectau rhwng cenedlaethau sydd eisoes yn bod
- Cyngor a chefnogaeth dros y ffôn a thrwy e-bost i brosiectau rhwng cenedlaethau sy'n dechrau ar eu gwaith
- Ymweliadau cefnogi 1:1 â phrosiectau neu grwpiau drwy drefniant
- Cymorth i wneud yn fawr o adnoddau sydd ar gael ar wefan CIP
- Ymarferion mapio ymarferol i gydlynwyr neu rwydweithiau'r Awdurdodau Lleol
- Cyngor a chefnogaeth o ran gwerthuso
- Hyfforddiant pwrpasol yn seiliedig ar adnoddau hyfforddi CIP, wedi'i ddarparu gan staff profiadol
- Hyrwyddo eich prosiect drwy astudiaethau achos ar y we

## Sut ydych chi'n cael gafael ar ein cymorth?

Mae gennym Gydlynydd Cefnogi Gwaith Rhwng Cenedlaethau yng Ngogledd Cymru ac un arall yn Ne Cymru, y dylid cysylltu â hwy yn y lle cyntaf.

Mae Cyfarwyddwr RSVP a'n Rheolwr Prosiectau Cenedlaethol yn rhan o'r tîm sy'n cynnig cefnogaeth rhwng cenedlaethau.

Mae holl Gydlynwyr Datblygu RSVP wedi cael eu hyfforddi gan CIP i ddarparu gweithdai rhwng cenedlaethau a chynnig cefnogaeth, felly mae'n bosibl y gallem eich cyfeirio chi at gyswllt mwy lleol.

## Am ymholiadau yn Ne Cymru, cysylltwch â:

Maureen Winter ar 07776 140585 neu drwy maureenrsvp@hotmail.co.uk

## Am ymholiadau yng Ngogledd Cymru, cysylltwch â:

Fred Evans ar 07876 033657 neu drwy frederickevanscal@hotmail.co.uk

## Am ymholiadau ynghylch hyfforddiant pwrpasol, cysylltwch â:

Barbara Locke ar 02920 390477 neu drwy rsvp@csvwales.freeserve.co.uk

CSV gwneud gwahaniaeth make a difference rsvp

Beth Johnson FOUNDATION looking at ageing in new ways